# CYNGOR CYMUNED TREF ALAW

Porfa Las, Llanddeusant, LL65 4AD
01407 730172

Cyfarfod o'r Cyngor Nos Fawrth, 16 Chwefror 2016 yn Neuadd Bentref, Llanddeusant.

**Yn bresennol** Cadeirydd Owain Owen, Glyn Hughes, Arthur Jones, Trefor Jones, Geraint Owen, Iona Phillips, Is-Cadeirydd Ifan Rowlands

**Ymddiheuriadau** Peredur Hughes, John T Rowlands, Ffion Roberts, Hugh Williams, Cynghorydd Llinos Medi (Talybolion)

**Ychwanegol**

**1 Cofnodion cyfarfod Ionawr 2016**

Darllenwyd a chadarnhawyd y cofnodion cyfarfod Ionawr 2016 gyda Trefor Jones yn cynnig ag Arthur Jones yn eilio.

**2 Datgan diddordeb**

Ifan Rowlands – eitem 3.2

**3 Materion â codwyd**

3.1 *Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn 2017*

Roedd Alwyn Hughes yn ddiolchgar am y cynnig o £2,000 dros ddwy flynedd ac wedi awgrymu cyfarfod 25 Chwefror, ond nad oedd yn bosib felly gofyn iddynt ddod i gyfarfod nesaf o'r Cyngor, sef 8 Mawrth @ 7.45pm i drafod ffordd ymlaen i ardal Tref Alaw ar gyfer yr Eisteddfod.

3.2 *Ysgol y Llannau*

*Datgan diddordeb* Ifan Rowlands

Mae Ifan Rowlands wedi bod gynrychioli CC Tref Alaw a rhieni'r ardal ar y Grŵp Rhanddeiliaid.

Adroddwyd Ifan Rowlands fu'r Ysgol yn cael ei galw YSGOL RHYD Y LLAN ac mi fydd yn ysgol gymunedol. Maent yn chwilio am Bennaeth ar y funud ond dim llawer o geisiadau. Mae'r ffigyrau eithaf cymhleth gyda lle i 150 o blant ond nad ydy hyn yn cynnwys rhai dalgylch yr hen Ysgol Llanddeusant. Nad ydy'n glir pwy fydd yn cael cludiant i'r ysgol am ddim.

Mae cyllid yr Ysgol wedi ei dorri o £7miliwn pan gynlluniwyd gyntaf i lai na £5miliwn erbyn rŵan a ma' nifer o'r adnoddau o'r cynlluniau gwreiddiol wedi eu colli.

**4 Un Llais Cymru**

Cytunwyd ail-ymelodi ag Un Llais a talu'r swm o £71 ar gyfer aelodaeth.

**Taliadau:** I mewn

| | | |
|---|---|---|
| Allan | Un Llais – aelodaeth 2016-17 | £71 |